

## CANLLAWIAU A GWEITHDREFNAU LLYWODRAETH CYMRU

### LWFANS DEFNYDDIWR CAR HANFODOL

Mae ein holl bolisiâu'n gwbl gynhwysol o bob aelod staff heb ystyried eu hoedran, statws priodas a phartneriaeth sifil (yr un rhyw a rhyw arall), bechiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, a oes ganddynt nam neu gyflwr iechyd, yn niwroddirywiol neu'n defnyddio laith Arwyddion Prydain, eu hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd. Rydym yn cydnabod nad yw'r termau 'hunaniaeth rhywedd' a 'mynegiant rhywedd' yn nodweddion gwarchoddedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, fodd bynnag, credwn fod polisi'r Llywodraeth sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer yr unigolion hynny sy'n ystyried eu hunain dan yr ymbarél 'traws' (yn hytrach nag ar sail rhyw deuaidd) yn agwedd fwy cynhwysol ac yn un sy'n sicrhau bod Gweinidogion Cymru mewn sefyllfa i gydymffurfio â'u holl ddyletswyddau statudol sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hyrwyddo llesiant yng Nghymru. Os oes gennych unrhyw adborth ar gynwysoldeb y polisi hwn, e-bostiwch [EqualityintheWorkplaceTeam@llyw.cymru](mailto:EqualityintheWorkplaceTeam@llyw.cymru)

1. Dylai'r holl staff sy'n teithio'n swyddogol, drwy ba bynnag ffordd, er mwyn cyflawni eu dyletswyddau ymglyfarwyddo â gweithdrefnau a [pholisi Teithio a Chynhaliath](#) Llywodraeth Cymru.
2. Cyflwynodd y Bwrdd y Lwfans Defnyddiwr Car Hanfodol i gynorthwyo staff sy'n cyflawni dyletswyddau statudol ar ran Llywodraeth Cymru gyda'r costau o gyflawni lefel benodol o deithiau busnes ar ddyletswyddau statudol. Pennodd fod hyn yn ofyniad llwyr a fyddai ar gael ar gyfer swyddi a oedd yn cyrraedd y trothwy hwn beth bynnag fo oriau gwaith unigolion yn y swyddi hynny. Ni fyddai ar sail pro-rata i'r rhai sy'n gweithio llai nag oriau llawn amser ond nad ydynt yn cyflawni milltiroedd busnes penodol (2000 y flwyddyn ers mis Ebrill 2010).
3. Mae'r lwfans ynghlwm wrth swyddi yn hytrach nag unigolion. Mae nifer fechan o swyddi cymwys yn Arolygiaeth Wledig Cymru, CAF/CASS, AGGCC, Gwasanaeth y Swyddog Rhent, AIC, CADW, Is-adran Pysgodfeydd a'r Tir, Natur a Choedwigaeth. Nid yw'r holl swyddi yn y meysydd busnes hyn neu unrhyw swyddi mewn unrhyw feysydd eraill yn gymwys.
4. Ar gyfer swyddi sy'n gymwys ar gyfer y lwfans, mae sawl math arall o deithio y gall staff ei ddefnyddio, yn dibynnu ar gost effeithlonrwydd, amser ac ystyriaethau lleihau carbon. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - Trafnidiaeth Gyhoeddus
  - Defnyddio car wedi'i logi
  - Defnyddio eich car eich hun a hawlio'r gyfradd filltiroedd bresennol

## Trafnidiaeth Gyhoeddus

5. Gall defnyddio trafndiaeth gyhoeddus fod yn opsiwn ymarferol ar gyfer rhai teithiau penodol, fel teithio i Lundain neu rhwng swyddfeydd penodol Llywodraeth Cymru. Wrth benderfynu a ydych chi am ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, dylid pwysu a mesur pob cost o fynd ar y daith, gan gynnwys cost amser staff wrth deithio a'r effaith amgylcheddol, er mwyn asesu a ellir sicrhau gwerth am arian.

## Llogi Car

6. Gall staff Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r system llogi car, er nad yw llogi car am deithiau byr rheolaidd yn werth da am arian. I'r rhai sy'n derbyn ECUA, caniateir llogi ceir ond dan amgylchiadau eithriadol, fel ar ôl torri i lawr ac nad yw trafndiaeth gyhoeddus yn opsiwn ymarferol ar gyfer y daith benodol honno. Gall defnyddwyr ceir achlysurol logi ceir os yw'n gost-ffeithiol gwneud hynny ac os yw'r rheolwr llinell yn cytuno ar hynny ymlaen llaw.
7. Mae'n debyg mai staff sy'n hawlio'r raddfa filltired bresennol i ddefnyddio eu car eu hunain ar gyfer teithiau lle nad yw llogi car neu dtrafnidiaeth gyhoeddus ar gael a/neu'n gost-ffeithiol fydd yr opsiwn mwyaf priodol a chost-ffeithiol ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau.
8. Rhaid i weithwyr sy'n defnyddio eu cerbydau ar fusnes swyddogol (p'un ai fel defnyddwyr ceir achlysurol/o dro i dro neu hanfodol) fod ag yswiriant cynhwysfawr, gan gynnwys defnydd busnes h.y. maen nhw wedi'u hyswirio yn erbyn hawliadau mewn perthynas ag:
  - anaf corfforol neu farwolaeth unrhyw drydydd parti;
  - anaf corfforol neu farwolaeth unrhyw deithiwr;
  - difrod i eiddo trydydd partion a theithwyr;
  - difrod i'r cerbyd neu ei golli.

## ECUA

9. Cynigir ECUA fel **opsiwn amgen** i logi ceir yn rheolaidd i staff mewn swyddi cymwys. Bydd angen i staff y mae eu swyddi yn gymwys am ECUA benderfynu a ydynt am ddefnyddio eu cerbyd preifat ar gyfer eu holl fusnes swyddogol, gan gynnwys teithiau byrrach, a hawlio ECUA drwy hynny, neu logi car lle mae hynny'n gost-ffeithiol a'u car eu hunain ar gyfer teithiau byrrach ar delerau defnyddwyr achlysurol. **Nid oes opsiwn ar gyfer defnydd cymysg**, er, dan amgylchiadau eithriadol, e.e. car yn torri i lawr neu ddamweiniau, gellir llogi car gyda **chytundeb blaenorol y rheolwyr** gan rywun sydd wedi dewis defnyddio ECUA. Mae'n rhaid i bawb sy'n dewis derbyn ECUA lofnodi [ymrwymiad](#) i nodi na fyddant yn llogi car ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol a'u bod yn disgwyl bodloni'r meini prawf cymhwyster.

10. Ni ddylid talu ECUA fel ffordd o ychwanegu at gyflog gweithiwr dan unrhyw amgylchiadau.

### **Meini prawf cymhwyster ECUA**

11. Bydd ECUA yn cael ei dalu os gellir dangos bod swyddi'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- Teithio mewn car yw'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o ddiwallu anghenion busnes y sefydliad ac nad oes ffordd arall o deithio a fyddai'n effeithlon neu'n effeithiol i alluogi'r deiliad swydd i gyflawni'r rôl; ac
- Isafswm milltired busnes blynyddol **o 2000 milltir** o leiaf **ar fusnes statudol**, yn bennaf ar deithiau rheolaidd a byr.

### **Beth yw'r ECUA?**

12. Lwfans blynyddol o £1000 yw ECUA sy'n daladwy i weithwyr mewn swyddi sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster a'r dyletswyddau'n golygu ei bod yn hanfodol cael car wrth law yn ôl y gofyn a heb car na fyddent yn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

13. Bydd swyddi cymwys yn cael eu nodi yn ôl y meysydd busnes a nodir ym mharagraff 3 uchod, wedi'u dynodi'n 'swyddi ECU' a'u hysbysu wrth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol. Nid yw bodolaeth 'sawl swydd' o'r un math a gradd yn golygu o reidrwydd bod pob deiliad swydd yn cael yr un dynodiad o ran ceir.

14. Bydd angen i reolwyr llinell ac unigolion gadarnhau:

- bod y swydd yn un ddynodedig,
- bod yr unigolion yn barod i ddefnyddio eu cerbyd eu hunain i gyflawni eu dyletswyddau a ddim yn defnyddio dulliau trafndiaeth amgen, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol, drwy lofnodi ymrwymiad sy'n datgan hyn; a'u bod wedi
- cydymffurfio â gofynion [y polisi Gyrru ar gyfer Gwaith](#)

er mwyn gallu gwneud taliadau.

### **Talu ECUA**

15. Gellir talu'r ECUA bob mis neu fel un cyfandaliad ar ôl i unigolyn gyrraedd y trothwy o 2000 milltir busnes. Y dull talu ar gyfer y naill opsiwn neu'r llall yw drwy'r gyflogres gan fod y taliad yn amodol ar dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

16. Mae meysydd busnes yn gyfrifol am hysbysu'r Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol o ddyheadau unigolion mewn swyddi dynodedig ynghylch derbyn y taliad misol neu'r cyfandaliad. Pe bai

unigolyn yn dewis y cyfandaliad yr Is-adran sy'n gyfrifol am hysbysu'r Ganolfan pan fo'r trothwy wedi'i gyrraedd. Bydd y taliad yn cael ei wneud pan fydd hi'n ymarferol ar ôl cael hysbysiad gan y Ganolfan.

17. Dylai rheolwyr llinell gwblhau'r [e-Ffurflen Gais Lwfansau Arbenigol](#) ar ran y gweithiwr. Bydd e-bost awdurdodi yn cael ei greu a'i anfon at y rheolwr llinell, ac yna bydd angen ei anfon ymlaen at y swyddog awdurdodi perthnasol yn y maes busnes er mwyn iddynt gymeradwyo taliad.

### **Gwasanaeth mewn swydd ddynodedig am ran o'r flwyddyn**

18. I staff sy'n cymryd swydd ddynodedig ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn ariannol bydd ECUA yn cael ei dalu:

- pe bai'r milltiredd y mis yn gyfwerth ag o leiaf un rhan o ddeuddeg o'r 2000 milltir busnes gofynnol y flwyddyn, h.y. 167 milltir y mis i'r rhai sy'n dewis cael eu talu bob mis; a
- Chyn gynted ag y bo'r 2000 milltir yn cael ei gyrraedd i'r rhai sy'n dewis derbyn y swm fel cyfandaliad.

### **Amodau sydd ynghlwm wrth dalu ECUA**

19. Os nad oes gan aelod o staff gar neu nad yw'n fodlon defnyddio ei gar ar gyfer milltiredd busnes, ni fydd yn gymwys am ECUA, hyd yn oed os yw'r swydd wedi'i dynodi fel un sy'n gymwys ar ei gyfer.
20. Mae'n ofynnol i ddefnyddwyr ceir hanfodol sicrhau bod eu ceir ar gael ar gyfer gwaith, wedi'u hyswiro'n gyfun ac at ddefnydd busnes, mewn cyflwr diogel i'r ffordd a'u bod yn meddu ar drwydded yrru ddilys.
21. Gydag unrhyw berson arall sydd angen gyrru ar gyfer y gwaith, gallai colli trwydded yrru gan dderbynydd ECUA arwain at ganlyniadau difrifol i'w gyflogaeth, yn dibynnu ar a ellir gwneud trefniadau amgen iddynt gyflawni eu dyletswyddau presennol ai peidio neu a ellir nodi swydd amgen addas, a allai fod wedi'i dynodi ar gyfer ECUA neu beidio.
22. Ni ddylid parhau i dalu ECUA o dan unrhyw amgylchiadau os yw'r gweithiwr wedi'i wahardd rhag gyrru, neu os nad oes gan y gweithiwr bellach fynediad at gerbyd yn ystod oriau gwaith am fwy na 4 wythnos (gweler 23 isod). Yn unol ag Atodiad K Polisi a Gweithdrefnau Disgyblu Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i aelod staff hysbysu ei Ddirprwy Gyfarwyddwr os yw'n cael ei wahardd rhag gyrru. Bydd y broses a amlinellir yn adran 5 o Atodiad K yn cael ei dilyn.

### **Atal taliad ECUA**

23. Dylai defnyddwyr ceir hanfodol sy'n ymuno neu adael cyflogaeth Llywodraeth Cymru neu'n symud o swydd ddynodedig ran o'r ffordd drwy flwyddyn dderbyn ECUA ar sail pro rata. Bydd y taliad yn dod i ben ar y dyddiad y bydd rhywun yn gadael Llywodraeth Cymru neu'n symud swydd.
24. Os nad yw car y gweithiwr ar gael oherwydd nam mecanyddol neu fod y gweithiwr yn absennol am o leiaf bedair wythnos, bydd ECUA yn cael ei dalu am weddill y mis pan nad oedd modd defnyddio'r car neu'r cyfnod y dechreuodd yr absenoldeb, ac am 2 fis pellach wedi hynny. Os na ellir defnyddio'r car o hyd neu os yw'r absenoldeb yn parhau ar ôl y cyfnod hwn, bydd ECUA yn cael ei dynnu yn ôl tan y bydd yr unigolyn yn dychwelyd i'r swydd sy'n berthnasol i'r taliad neu fod y car yn cael ei ddefnyddio eto. Mae'r unigolyn yn gyfrifol am hysbysu'r rheolwr llinell o ddyddiadau perthnasol. Yna, bydd y rheolwr llinell yn hysbysu'r Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol.
25. Mae trefniadau penodol ynghylch absenoldeb yn gymwys i'r rhai sy'n cymryd seibiant gyrfa neu absenoldeb mamolaeth a lle cytunwyd y byddant yn dychwelyd i'r swydd sy'n derbyn ECUA wrth dychwelyd i'r gweithle. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd ECUA yn dod i ben ddiwedd yr ail fis ar ôl y mis y dechreuodd y seibiant gyrfa neu absenoldeb mamolaeth a bydd yn aildechrau ar y dyddiad y maent yn dychwelyd, cyn belled â bod y swydd wedi'i dynodi i fod yn gymwys o hyd. I'r rhai sy'n dychwelyd i swydd nad yw wedi'i dynodi'n gymwys, ni fyddant yn derbyn ECUA wrth dychwelyd i'r gweithle.

### **Adolygu'r ECUA**

26. Rheolwyr sy'n gyfrifol am wneud trefniadau blynyddol cadarn i adolygu swyddi sy'n denu ECUA ac ar gyfer penderfynu a ddylid dal ati i'w dalu. Bydd lefel y milltiredd a wneir gan rywun mewn swydd ddynodedig ECUA yn cael ei fonitro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i asesu a ydynt wedi gwneud digon o filltiredd i fod y gymwys am daliad. Os canfyddir nad ydynt a'u bod wedi dewis derbyn y taliad bob mis, bydd angen iddynt ad-dalu'r swm o'r ECUA y byddant wedi'i dderbyn. Bydd yr ad-daliadau dros yr un cyfnod ag y derbyniwyd yr ECUA.
27. Bydd angen ystyried unrhyw newidiadau i ofynion y swydd.
28. Os oedd y milltiredd disgwylidig a deithiwyd yn ffactor wrth ddynodi'r swydd fel un â statws Defnyddiwr Car Hanfodol, yna dylid adolygu'r milltiredd gwirioneddol i asesu a ddylid cadw'r dynodiad fel defnyddiwr car hanfodol.